

Heddlu Dyfed Powys – cyfreithlondeb

Trosolwg – Pa mor gyfreithlon yw'r heddlu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?

Dyfarniad cyffredinol



Angen gwelliant

Trwy gydol 2015, mae rhaglen archwiliad cyfreithlondeb PEEL HMIC wedi asesu'r diwylliant o fewn Heddlu Dyfed-Powys, a sut mae hyn wedi ei adlewyrchu yn ymgysylltiad cyhoeddus yr heddlu, defnydd o Taser a chydymffurfiad gyda'r cynllun Defnydd Gorau o Stopio a Chwilio.

Mae HMIC yn ystyried nad yw Heddlu Dyfed-Powys wedi gwneud digon i ddatblygu diwylliant moesol, i gynnwys y Cod Moeseg mewn polisi neu ymarfer, neu i sicrhau fod achosion cwynion a chamymddwyn yn rhydd o duedd.

Fe welsom dystiolaeth bod yr heddlu'n datblygu systemau i ddarparu cyfeiriad pendant ac i gydlynu gweithgaredd ymgysylltu. Fodd bynnag, roeddem yn pryderu nad oedd swyddogion a staff yn deall y Model Penderfyniad Cenedlaethol a sut ddylid ei ddefnyddio yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Rydym yn falch bod Heddlu Dyfed-Powys yn cydymffurfio gyda'r cynllun Defnydd Gorau o Stopio a Chwilio, a bod ei ddefnydd Taser yn deg a phriodol.

Dyma'r tro cyntaf i HMIC raddio heddluoedd ar eu cyfreithlondeb, felly nid yw'n bosibl cyflawni cymhariaeth blwyddyn ar flwyddyn.

Crynodeb

Roedd Heddlu Dyfed-Powys mewn cyfnod o drawsnewid, rhwng y rhaglen newid flaenorol, a datblygiad gweledigaeth newydd i'r heddlu. Fodd bynnag, roedd yn glir i ni nad oedd swyddogion a staff yn ymwybodol o'i fodolaeth. Canfu HMIC nad oedd staff yn teimlo'n gyson y gallent herio penderfyniadau neu ymddygiad amhriodol.

Roedd yr heddlu yn monitro lles seicolegol a chorfforol swyddogion a staff yr heddlu. Roedd uned iechyd galwedigaethol yr heddlu yn sefydledig, ac roedd y rhai y buom yn trafod gyda nhw yn glir o ran sut a phryd ddylid atgyfeirio at yr uned hon.

Nid oedd yr heddlu wedi darparu hyfforddiant effeithiol ar God Moeseg y Coleg Plismona, ac ychydig iawn neu ddim tystiolaeth a welsom o'r heddlu'n defnyddio'r Cod i hysbysu ei bolisi ac ymarfer.

Pan edrychodd HMIC ar pa mor dda mae'r heddlu'n deall ac ymgysylltu gyda'r bobl mae'n eu gwasanaethu, fe welsom dystiolaeth fod yr heddlu'n datblygu systemau i ddarparu cyfeiriad clir ac i gydlynu gweithgaredd ymgysylltu. Ceir fframwaith ymgysylltu gynhwysfawr i gefnogi cyfathrebu ar lefel yr heddlu ac yn lleol. Mae'r heddlu yn gwneud rhywfaint o ddefnydd o asesiadau effaith cymunedol i ddelio â phryderon lleol.

Nid oedd swyddogion na staff y buom yn siarad gyda nhw yn ystod yr archwiliad yn deall y Model Penderfyniad Cenedlaethol a sut ddylid ei ddefnyddio yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Mae stopio a chwilio a Taser yn ddwy ffordd sydd ar gael i'r heddlu i atal troseddu a diogelu'r cyhoedd. Fodd bynnag, gallant fod yn ddulliau ymwithiol a gorfodol, ac felly mae'n allweddol fod yr heddlu'n eu defnyddio'n deg a phriodol. Mae HMIC yn falch i weld fod Heddlu Dyfed-Powys yn cydymffurfio â'r cynllun Defnydd Gorau o Stopio a Chwilio. Dylai'r heddlu sicrhau ei fod yn llenwi ffurflenni Taser yn gywir ac yn unol â chanllaw'r Coleg Plismona. Mae defnydd o'r Taser yn deg a phriodol yn Heddlu Dyfed-Powys.

I ba raddau mae ymarfer ac ymddygiad yn atgyfnerthu lles staff a diwylliant moesegol?

Roedd Heddlu Dyfed-Powys mewn cyfnod o drawsnewid, rhwng y rhaglen newid flaenorol, a datblygiad gweledigaeth newydd i'r heddlu. Fodd bynnag, roedd yn glir i ni nad oedd swyddogion a staff yn ymwybodol o'i fodolaeth.

Canfu HMIC fod yna farn anghyson ymysg staff o ran a oeddynt yn teimlo y gallent herio penderfyniadau neu ymddygiad amhriodol.

Roedd yr heddlu yn monitro lles seicolegol a chorfforol swyddogion a staff yr heddlu. Roedd uned iechyd alwedigaethol yr heddlu yn sefydledig, ac roedd y rhai y buom yn trafod gyda nhw yn glir o ran sut a phryd ddylid atgyfeirio.

Nid ddarparwyd unrhyw hyfforddiant effeithiol ar y Cod Moeseg, ac ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd fod y Cod yn cael ei ddefnyddio i hysbysu ei bolisi ac ymarfer. Roedd dealltwriaeth o'r Cod yn anghyson.

Er na ddangosodd ein hadolygiad o ffeiliau achos unrhyw dystiolaeth o annhegwch o ran delio gyda chwynion y cyhoedd a chamymddygiad, roedd yn glir i ni nad oedd yr heddlu wedi gwneud unrhyw ymgais bron i sicrhau fod penderfyniadau yn gyson neu'n rhydd o duedd.



Angen gwelliant

Meysydd i'w gwella

- Dylai tîm y prif swyddog sefydlu'n glir y disgwyliadau a'r gofynion sy'n ofynnol ar gyfer yr holl swyddogion a staff ar draws Heddlu Dyfed-Powys, a sicrhau bod hyn wedi ei gyfathrebu'n glir. Dylai arweinyddion ar bob lefel atgyfnerthu'r negeseuon hyn i sicrhau dealltwriaeth dda gan y gweithlu.
- Dylai tîm y prif swyddog sicrhau bod yr holl swyddogion a staff yn Heddlu Dyfed-Powys yn deall y Cod Moeseg. Dylai tîm y prif swyddog atgyfnerthu'n barhaus yr angen am ymddygiad moesol, heb dybio bod hyn yn ddealedig o fewn yr heddlu.
- Dylai tîm y prif swyddog sicrhau bod yna brosesau priodol ar waith i sicrhau y delir â chwynion ac achosion camymddwyn mewn ffordd gyson a theg, ar gyfer swyddogion a staff, a'r rhai gyda nodweddion gwarchoddedig. Rhaid cwblhau'r holl gwynion ac achosion camymddwyn yn unol â chanllaw statudol yr IPCC, canllaw'r Swyddfa Gartref a deddfwriaeth arall berthnasol.

Pa mor dda mae'r heddlu yn deall, ymgysylltu gydag a thrin y bobl mae'n eu gwasanaethu yn deg i gynnal a gwella ei gyfreithlondeb?

Canfu HMIC fod Heddlu Dyfed-Powys yn cydnabod y berthynas rhwng ymgysylltu â'r cyhoedd a chyfreithlondeb. Roedd tystiolaeth bod yr heddlu'n datblygu systemau i sicrhau cyfeiriad effeithiol a chydlynu gweithgaredd ymgysylltu. Ceir fframwaith ymgysylltu gynhwysfawr i gefnogi cyfathrebu ar lefel yr heddlu ac yn lleol. Gwneir rhywfaint o ddefnydd o asesiadau effaith cymunedol i ddelio â phryderon lleol.

Mae'r heddlu'n defnyddio nifer o ddulliau ymgysylltu; mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd wyneb yn wyneb traddodiadol yn ogystal â chyfleoedd a gynigir gan gyfryngau cymdeithasol modern. Ychydig iawn o dystiolaeth oedd o ddefnyddio proffiliau cymdogaeth ffurfiol gan ddibynnu'n ormodol o bosibl ar ddealltwriaeth unigol o gymunedau. Mae yna dystiolaeth gyfyngedig o ymagwedd strwythuredig i gasglu a diweddarau gwybodaeth am gymdogaethau a chymunedau. Yn lle hynny mae swyddogion a staff yn dibynnu ar wybodaeth neu ddealltwriaeth eu cydweithwyr. Er y gallai hyn weithio mewn rhai ardaloedd, mae'n annhebygol y bydd yn effeithiol ar y cyfan. Dylai'r heddlu sicrhau ei hun bod gan ei dimau cymdogaeth fynediad dibynadwy at wybodaeth berthnasol a strwythuredig am y llefydd a chymunedau a wasanaethir ganddynt.

Mae HMIC yn pryderu nad yw nifer o swyddogion a staff yn deall y Model Penderfyniad Cenedlaethol a sut ddylid ei ddefnyddio yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Dylai'r heddlu geisio datrys hyn ar unwaith.



Angen gwelliant

Meysydd i'w gwella

- Dylai tîm y prif swyddog sicrhau bod gan swyddogion a staff yr heddlu ddealltwriaeth dda o'r Model Penderfyniad Cenedlaethol, a sut i'w ddefnyddio yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd.

I ba raddau y mae penderfyniadau ar ddefnyddio stopio a chwilio a Thaser yn deg a phriodol?

Mae HMIC yn falch i weld fod Heddlu Dyfed-Powys yn cydymffurfio â'r cynllun Defnydd Gorau o Stopio a Chwilio, ond nad yw swyddogion yn ymwybodol o ofynion llawn y Cynllun. Mae'r heddlu'n darparu hyfforddiant ar stopio a chwilio i oruchwylwyr, ond mae'n aros nes bydd pecyn hyfforddiant y Coleg Plismona cenedlaethol wedi ei gwblhau cyn ei gynnig o'r holl swyddogion.

Mae'r heddlu wedi cyflwyno cofnodi electronig o'r holl achosion stopio a chwilio, ac wedi gwella casglu data fel bod canlyniad pob chwiliad wedi ei gofnodi. Mae hyn nawr yn eu galluogi i gyhoeddi gwybodaeth sy'n dangos yr achlysuron pan mae swyddogion wedi cyflawni chwiliad, yr achlysuron pan ddaethpwyd o hyd i wrthrych disgwylidig y chwiliad neu ble methodd y chwiliad i ganfod yr eitem a amheuwyd. Cyhoeddir y data yma ar wefan yr heddlu.

Dylai'r heddlu sicrhau y cwblheir ffurflenni Taser yn gywir ac yn unol â chanllaw'r Coleg Plismona, gan ddefnyddio'r Model Penderfyniad Cenedlaethol ble fo'n briodol.

Mae defnydd o'r Taser yn deg a phriodol yn Heddlu Dyfed-Powys.



Da

Meysydd i'w gwella

- Dylai'r heddlu sicrhau bod ei gofnodion stopio a chwilio yn cynnwys sail rhesymol ddigonol i gyfiawnhau'r defnydd cyfreithlon o'r pŵer, a bod swyddogion yn deall y seiliau gofynnol ar gyfer stopio a chwilio yn llawn.
- Dylai'r heddlu sicrhau ei fod yn goruchwylio cywirdeb ei gofnodion stopio a chwilio yn ddigonol ac yn sicrhau eu bod yn cynnwys yr wybodaeth ofynnol parthed seiliau rhesymol dros ddefnydd yr heddlu o'i bŵer.